

# Sul y Beibl

## Gweddiau ar Salm 119.129-136

### Gweddiau

Wrth i ni ymgasglu i weddio, rydyn ni'n ystyried y weddi yn Salm 119.129 – 136.

Gallwch naill ai ddarllen y darn fel gweddi, neu ddefnyddio'r testun isod, sy'n addasiad o'r testun

- <sup>129</sup> Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol,  
a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.
- <sup>130</sup> Mae dy eiriau di yn goleuo materion,  
ac yn rhoi deall i bobl gyffredin.
- <sup>131</sup> Dw i'n dyheu, dw i'n disgwyl yn geg agored  
ac yn ysu am dy orchmynion di.
- <sup>132</sup> Tro ata i, a bydd yn garedig ata i;  
dyna rwyt ti'n ei wneud i'r rhai sy'n caru dy enw di.
- <sup>133</sup> Dangos di'r ffordd ymlaen i mi;  
paid gadael i'r rhai drwg gael y llaw uchaf arna i!
- <sup>134</sup> Gollwng fi'n rhydd o afael y rhai sy'n fy ngormesu,  
er mwyn i mi wneud beth rwyt ti'n ei ddweud.
- <sup>135</sup> Bydd yn garedig at dy was,  
a dysga dy ddeddfau i mi.
- <sup>136</sup> Mae'r dagrau yn llifo fel afon gen i  
am fod pobl ddim yn ufudd i dy ddysgeidiaeth di.

Beibl.net



#### Dad nefol,

Rydym yn dy addoli di gan fod dy dystiolaethau yn rhyfeddol. Rydym yn dyheu am gadw dy gyfreithiau di.

Mae agor dy eiriau yn rhoi goleuni

Boed i oleuni dy air ein helpu ni i ddeall dy ogoniant, gan ein gwneud ni'n ddoeth ar gyfer iachawd-wriaeth.

Arglwydd, gofynnwn am gael dyheu am dy orchmynion, yn yr un modd ag yr ydym yn dyheu am ddiod yn y gwres, neu am fwyd pan fyddwn ni'n newynog.

Dduw, gofynnwn i ti droi atom a bod yn rasol tuag atom, fel yr wyt yn ei wneud i bawb sy'n caru dy enw. Gofynnwn i ti gadw ein camau'n gadarn, fel rwyt ti wedi addo gwneud,

Cadw ni rhag cael ein rheoli gan ein pechod.

Achub ni rhag gorthrwm dyn, fel y gallwn gadw dy gyfreithiau. Boed i'th wyneb lewyrchu arnom, a dysg i ni dy ffyrdd di.

Dad, deunw atat a gofynnwn i ti roi cariad yn ein calonnau at rai nad ydyn nhw'n dy adnabod di eto. Boed i ni siarad am dy eiriau rhyfeddol, dy weithredoedd grymus a dy gariad maddeugar gogoneddus tuag atom ni, dy blant.

Amen

Os ydych chi wedi sôn am ein gwaith ym Malawi, mae'n bosibl yr hoffai'r gynulleidfa weddio dros y bobl maen nhw wedi clywed amdany'n nhw.



*Gweddiwch dros Clapperton Mayuni, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas y Beibl ym Malawi a'i dîm, fel eu bod yn cael eu hannog yn eu gwaith.*

Fe fydden nhw wrth eu bodd yn gweld effaith fawr y gwaith maen nhw'n ei wneud, oherwydd oni bai bod bywydau'n cael eu newid, nid yw'n werth ei wneud. Ymunwch â nhw i weddio y bydd llawer o bobl ifanc yn clywed y gair, ac y byddan nhw'n gweld plant yn deall y straeon.



*Gweddiwch dros Tadala Mphatso a'i theulu. Maen nhw'n byw yn nhrefgordd Manase yn ne Malawi. Tarodd seiclun Idai yn erbyn eu tref, a bu difrod i eiddo, ond eto mae bywyd arferol yn parhau yno.*

Mae Tadala yn gofyn i Dduw amddiffyn ei theulu a'i helpu yn yr ysgol; i Dduw barhau i'w bendithio â Beiblau ar gyfer yr holl blant nad ydyn nhw eto'n adnabod Duw ac sydd angen Beibl fel y gallan nhw ddod i'w adnabod.

**Diolch i chi am sefyll gyda ni mewn gweddi dros bobl Malawi.**

